# FFURFLEN LANHAU CADARNHAU COVID-19

Os oes achos o COVID - 19 yn cael ei amau neu ei gadarnhau, mae’n rhaid diheintio gan ddefnyddio tarthydd neu ddefnyddio dyfais ULV. Gyda chynnyrch gwrthficrobaidd sydd wedi ei wneud o ddŵr gyda gallu eang i ladd a rheoli’r hyn sy’n weddill. Addas ar gyfer halogiad dŵr gwyn i lwyd. Effeithiol yn erbyn microreoli Paeruginosa, E-coli, S.Aureas, Enterococcus hirea, Bacillus subtillis, Asperigilus niger, Salmonela, Legionella pneumophilia a llawer mwy. I’w ddefnyddio i chwistrellu, ewynnu, tarthu ULV a sychu. Gellir ei ychwanegu at rai glanedyddion ar gyfer mwy o ddiogelwch neu i olchi dyfeisiau electronig. Nid oes arogl arno felly mae’n addas ar gyfer mannau bwyd a mannau ble nad oes angen diarogli.

---

| |
|---|
| **CAM 1: NODI MAN/MANNAU HALOGEDIG** |
| ▪ Ar ôl adroddiad o COVID – 19, darparwch yr holl offer glanhau angenrheidiol (h.y. offer glanhau, cemegion a phecynnau arllwys). Dylech chi bob amser dybio bod mannau cyswllt yn heintus |
| **CAM 2: DIOGELWCH EICH HUN RHAG UNRHYW HAINT** |
| ▪ Gwisgwch siwt untro, a’i chau hyd at eich gwddf. Gwisgwch fwgwd a menig a ffedog. Tynnwch y PPE ar ddiwedd y broses i leihau unrhyw halogiad neu haint rhag lledaenu |
| **CAM 3: SOCIWCH UNRHYW HYLIF SYDD WEDI ARLLWYS** |
| ▪ Defnyddiwch y gronynnau sydd mewn pecyn arllwys (gan ddilyn y cyfarwyddiadau) neu dywelion papur/rhywbeth arall i socian yr hylif sydd dros ben<br>▪ Trosglwyddwch y rhain ac unrhyw ddeunydd solid arall yn uniongyrchol i mewn i fag gwastraff – gallwch chi ddefnyddio’r bag untro a’r sgŵp/crafwr sy’n dod gyda’r pecyn arllwys<br>▪ Golchwch eich dwylo’n drylwyr gan ddefnyddio sebon hylifog, dŵr cynnes a’u sychu nhw |
| **CAM 4: GLANHEWCH Y MAN HALOGEDIG O FEWN RADIWS O 2 FETR** |
| ▪ Glanhewch y man halogedig gyda glanedydd a dŵr poeth, gan ddefnyddio cadach untro<br>▪ Diheintiwch y man halogedig, gan gynnwys arwynebeddau y mae dwylo’n cyffwrdd â nhw, gyda hydoddiant cannydd hypoclorit 1000ppm (0.1%) a sicrhewch ei fod, yn ôl cyfarwyddiadau’r gweithgynhyrchydd, yn dod i gyswllt am ddigon o amser – (argymhellir glanhau â stêm ar gyfer celfi/defnyddiau meddal)<br>▪ Sicrhewch fod unrhyw offer symudol yn cael ei symud i’r man halogedig er mwyn cael ei lanhau’n drwyadl yn effeithiol<br>▪ Gwaredwch bob deunydd yn y man halogedig na ellir ei lanhau a’i ddiheintio’n ddigonol<br>▪ Dylid glanhau mewn ffordd drefnus fel nad yw mannau sydd wedi cael eu dadhalogi’n cael eu hailhalogi<br>▪ Taflwch fenig, ffedogau a chadachau yn y bag gwastraff - Seliwch yr holl gynnwys yn y bag a’i daflu mewn cynhwysydd gwastraff allanol<br>▪ Golchwch eich dwylo’n drylwyr gan ddefnyddio sebon hylifog, dŵr cynnes a’u sychu nhw |

| GLANHAU TRWYADL: MANNAU ERAILL BLE NAD YW MANNAU CYSWLLT COVID – 19 YN HYSBYS |
|---|
| ▪ Canolbwyntiwch ar arwynebeddau a allai fod wedi cael eu halogi'n anuniongyrchol gan ddwylo a thraed (h.y. coridorau, lloriau, byrddau, cadeiriau, waliau)<br>▪ Os nad oes arllwysiad aerosol yn hysbys yn y gofod, nid oes angen symud offer mawr (h.y. cypyrddau storio, silffoedd llyfrau ac yn y blaen) |
| **TOILEDAU** |
| ▪ Dylid glanhau a diheintio toiledau'n amlach ac yn enwedig ar ôl achos o COVID - 19<br>▪ Gwnewch yn siŵr fod arwynebeddau sy'n cael eu cyffwrdd gan ddwylo yn cael eu diheintio'n drylwyr (h.y. tsaeniau toiled, tapiau sinc, dolenni drysau)<br>▪ Gwiriwch y ddarpariaeth i olchi dwylo (sebon, dŵr poeth, cyfleusterau sychu) a thynnwch sylw at unrhyw gyfleusterau golchi dwylo sydd ar goll yn y toiledau |
| **OFFER GLANHAU** |
| ▪ Mae'n rhaid diheintio'r holl offer glanhau ar ôl eu defnyddio |
| **COFNODI MANYLION** |
| ▪ Cofnodwch yr holl fanylion angenrheidiol ar y daflen cofnodi glanhau |